

Y

ARGRAFFIAD CHWEC



Bont

MAWRTH 2004

Y daflen newyddion i CARROG a LLIDIART y PARC

Rydym wedi llwyddo i gael ein noddi ar gyfer y rhifyn hwn, a'r ddau rifyn nesa'. Rydym wedi gwneud cais am grant iaith Gymraeg a fydd yn sicrhau ein dyfodol tymor hir, felly croeswch eich bysedd. Rydym erbyn hyn ar y we - www.ybontdeevalley.com diolch i Aled Brown sydd wedi dylunio'r safle yn rhad ac am ddim. Does dim llythyrau y Mis hwn sydd braidd yn siomedig. Efallai y bydd ein erthygl pennaf am werthiant tir yr Eglwys gan yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer adeiladu tai yn codi cwestiynau. Mae tai rhad o fewn cyraedd ariannol pobl ifanc yng Ngharrog a Llidiart y Parc yn dal i fod yn broblem. Dim ond ar y gwerthiant cyntaf y mae tai cychwynol yn rhad, mae'r farchnad yn golygu fod prisiau yn codi wrth iddynt gael eu gwerthu sydd yn eu gwneud yn rhy ddrud i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Nid yw'r farchnad yn anelu'n uniongyrchol at bobol lleol ychwaith, sydd codi'r broblem o ymfudwyr sydd efallai a dim gwybodaeth neu gydymdeimlad a'r ardal a'i diwylliant, a dim diddordeb mewn ymuno a bywyd pentref. Mae adroddiad o'r cyfarfod cyhoeddus wedi ei gyhoeddi isod.

GWERTHIANT TIR YR EGLWYS

Ar yr 22ain o Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod gwerthiant Tir yr Eglwys, yn ymyl y 'Smithy' gan yr Eglwys yng Nghymru. Gwahoddwyd Eglwys Carrog i wneud sylwadau er nad ydynt yn elwa o gwbl. Mae'r canlynol wedi cael ei argymhell i'r P.C.C:

Yn gyntaf - dim gwerthiant o'r tir ac iddo aros fel tir amaethyddol. Yn ail - os yw'r tir yn cael ei werthu, iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer adloniant. Ac yn drydydd - Os yw'r tir yn cael ei werthu ar gyfer adeiladu, iddo gael amodau a chyfamod i sicrhau fod yr adeiladu o fudd i'r pentref:

1. Dylai Cymdeithas Adeiladu fod yn gyfrifol am y gwaith.
2. Ni ddylid adeiladu yn union wrth ochr y 'Smithy' gan fod hwn yn adeilad hanesyddol a fod perygl o lifogydd.
3. Dylai Pwyllgor yr Eglwys wneud yn glir fod perygl o lifogydd yma ac fod yr Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnig nad yw'r tir yn addas ar gyfer adeiladu.
4. Dylai tai newydd fod yn rhad a dim ond ar werth i bobl sydd wedi byw yng Ngharrog neu Llidiart y Parc am o leiaf 10 mlynedd.
5. Dylid gwneud yn glir i'r Eglwys yng Nghymru fod tir mwy addas ar gael yng Ngharrog ar gyfer adeiladu.
6. Dylai arddull y tai fod yn gydymdeimladol a'r pentref.

Mae Pwyllgor y Neuadd wedi pasio'r sylwadau hyn i'r Eglwys yng Nghymru.

HEN GARROG

Wrth i ni barhau a'n cyfres o'r traethawd a ysgrifennwyd yn y 1950au y pwnc y Mis hwn yw Cymeriadau Lleol :

Dyn y foment ar ddechrau'r ganrif oedd Mr Edward Jones, Siop y Parc. Fe weithiodd yn galed er budd y pentrefwyr, yn eu hannog i cynilo. Annogodd weithwyr y chwarel i gadw dau fochyn - byddai Mr Edwards wedyn yn rhoi blawd yn rhad ac am ddim iddynt i fwydo'r moch ac yn yr Hydref byddai'n prynu mochyn am chwe cheiniog. Byddai'r chwarelwyr yn cadw un mochyn. Byddai hefyd yn eu hannog iddynt dyfu tatws mewn cae un o'r ffermwyr lleol am 6 hen geiniog am 20 llath. Cymeriad arall oedd Amos Williams - bu Mr Williams yn cadw tafarn, yn gwerthu glo ac yn bysgotwr o fri .Byddai'n gwneud ei 'flies' ei hun ac yn boblogaidd iawn gyda'r pysgotwyr a fu'n dod o Ganolbarth Lloegr i aros gyda theuluoedd yn y pentre'. Roedd gwraig Amos, sef Mary Williams yn adnabyddus am ei sgiliau ym myd meddyginiaeth. Roedd yn enwog am ei phlanhigion a'i llysiau. Roedd bechgyn y pentref yn mwynhau pysgota a byddai Amos yn gwerthu bachau iddynt - tri bachyn am geiniog ar gyfer llysywen ac un bachyn am geiniog ar gyfer brithyll. Byddai Mary yn rhoi ceinog neu ddwy i'r bechgyn am llysywen, yn ol ei maint, a byddai'n gwneud olew gyda hwy i wella pigyn clust. Dywed hefyd fod y llysywen yn cael ei chroeni a'i rhannu i wneud carau. Chwaraeodd teulu Rhaggat neu y "Lloyds" ran bwysig ym mywyd y pentre' yn y gorffennol. Roeddent yn hael iawn gyda thrigolion y plwyf. Yn ol yr hanes roedd yn rhaid iddynt adael Rhaggat am dair blynedd gan eu bod wedi gwario gormod (a rhentu'r ty) Llongyfarchiadau i'r rhai a sylweddolodd fod awdur y tra-

ethawd wedianghofio rhestru'r 'Swan' ynghyd a'r tafarnau eraill.

YSGOL CARROG

Cynhaliwyd 'The Big Hush' ar Ddydd Gwener 13eg o Chwefror i godi arian tuag at nyrsus MacMillan. Trefnodd Blwyddyn 6 gemau a chystadleuathau ac fe godwyd £87. Gwisgodd y plant ddillad rywun arall. Bu Cyfnod Allweddol 2 yn Dinas Bran i redeg ras Traws Gwlad yn erbyn ysgolion eraill yn yr ardal ar Ddydd Mercher 25ain o Chwefror. Da iawn i'r disgyblion i gyd am gwblhau'r ras. Cafodd y plant berfformiad o 'Spinning a Yarn' gan gwmmi 'Ramshackle Theatre' y bore hwnnw, ac fe fwynhaodd y plant y perfformiad yn fawr iawn. Mae Clwb yr Urdd yn brysur yn cwblhau eitemau Celf a Chrefft ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn Dinas Bran ar y 6ed o Fawrth. Roedd yn bleser gweld cynddisgyblion o Ysgol Carrog mewn perfformiad o 'Alice' gan y 'Young Uns'. Roedd Charlotte Davies yn wych fel 'Alice' a cafwyd berfformiad bendigedig gan, Kath, Heather, Gemma, Lydia a Lliw yn y cast.

Croeso'n ol i Garrog i Sarah Nash (Edwards) a'i theulu a llongyfarchiadau ar enedig-
eth merch fach, Mia Isabella a anwyd ar 24ain o Chwefror (8 pwys 1 owns).

Llongyfarchiadau i Tina Lloyd ar enill ei N.V.Q Lefel 3.

Llongyfarchiadau i Ike Dolben ar gyrraedd ei bedwar ugain y Mis diwethaf, a dathlu
gyda grwp o ffrindiau a theulu.

WELI'S A BERFA

Oherwydd pwysau wyna, a'r ffaith ei fid wedi colli ei offer pen tywydd anffafriol, mae
colofn ein gohebydd materion gwledig wedi ei ohurio tan y mis nesaf.

NEUADD

Mae'r Neuadd yn cael ei ddefnyddio gan nifer o grwpiau lleol, ac mae gan bob grwp
berson sy'n gyfrifol am allwedd. Mae'r defnydd o'r Neuadd yn rhad ac am ddim ond
byddwn yn croesawu cyfraniadau ariannol ! Os ydych am logi'r Neuadd fel unigolyn
neu fel grwp neu gymdeithas gallwch gysylltu a Mrs Janice Sheasby, 'Y Cottage' -
Ysgrifennyddes Llogi - ar 01490 430644 neu e.bost - neuaddcarrog@hotmail.com. Yn
anffodus mi fydd yn rhaid gofyn am dal o flaen llaw gan i ni gael digwyddiad yn ddi-
weddar lle ffaelodd rhywun dalu am logi'r Neuadd ar gyfer priodas. Mae gan y Neuadd
gostau rheolaidd e.e Gwres Canolog - £600 y flwyddyn yn ogystal ac arolwg trydanol
er mwyn i ni geal cadw ein trwydded adloniant - £500. I'n helpu gyda hyn rydym yn ail
ddechrau'r Clwb 100. Cysylltwch a Dave Jones am fwy o fanylion am sut i danysgrifo
- bydd y rhifau cyntaf yn cael eu tynnu ar Ddydd Sadwrn, Mai 15fed. Mae'r cynllun
Cymorth Rhodd yn barod, a gall unrhyw un sydd a diddordeb gysylltu a Paul Fisher ar
430379.

CYMDEITHAS HANESYDDOL EDEYRNION

Cafwyd darlith ddiddorol dros ben ar Chwarel Pennarth gan Mrs Valmai Webbyn y
cyfarfod diwethaf. Bu Pennarth yn chwarae rol bwysig yn Hanes Carrog ac yn cynhyr-
chu o 1850 hyd at 1930. Bu nifer o berchnogion, a rhai o'r teuluoedd yn dal yn bodoli yn
yr ardal hyd heddiw. Roedd lawer o'r gweithwyr yn aros yn y pentref ac roedd tua 200
o weithwyr yn gweithio yno. Daeth 70+ o fobl i wrando ar y ddarlith, sy'n adlewyrchu
diddordeb mewn hanes lleol.

EFEILLIO


Cafwyd cyfarfod efeillio llwyddiannus ar y 9fed o Chwefror i drafod yr ymweliad
swyddogol cyntaf o Plouye, Llydaw rhwng Mai 13eg - 17eg. Dylai fod tua 12 o gynry-
chiolwyr yn y parti ac fe fydd angen llety arnynt gan bobol yn y pentref. Mae'r pwyllgor
yn trefnu rhaglen o adloniant a ddylai roi blas o Garrog/Parc ac ardal leol. Bydd adloni-
ant i'r holl bentref ar Ddydd Sadwrn Mai 15fed gyda 'Hog Roast' - Tocynnau - £5.

CLWB SADWRN

Bydd Clwb Sadwrn ar gael i blant ifanc y pentref hyd at 14 oed, diolch i grant a gafw-
yd gan y Loteri Cenedlaethol. Bydd y Clwb yn cychwyn ar y 6ed o Fawrth yn y Neuadd
gyda nifer o weithgareddau yn cynnwys dawns, gemau, crefft, y.b Mwy o fanylion ar
bosteri o gwmpas y pentref - neu ffoniwch 430571.

CANOLFAN IECHYD CORWEN EDRYCHWCH AR OL EICH CALON

A ydych mewn penbleth ynglyn a braster
da a braster drwg? Ydy eichcolesterol yn
rhy uchel? Mae 20% o'r coleserol yn ein
gwaed yn dod o'r hynyr ydym yn ei fwyta,
ac yn cael ei wneud o 'lipid' dwysedd isel
(LDL) sy'n tagu'r rhedweli - BRASDER
DRWG - a 'lipids' dwysedd uchel(HDL)
-BRASDER DA - sy'n cario'r LDL yn ol
i'r iau i gael ei wastraffu ac felly i lanhau'r
rhedweli. Mae braster anifeiliaid sy'n cael
ei ddarganfod mewn cig achynyrch lla-
ethdy yn cynnwys lefel uchel o LDL, yn
ogystal a corgimwch. Ceir braster HDL
mewn pysgod fel brithyll, salmwn, sardin,
a phennog. Os nad ydych yn hoffi pys-
god, cymerwch dabledi olew pysgod. Mae
prynu olew coginio a meny yn gallu
bod yn gymleth. Mae olew gwyn caled
e.e lard yncynnwys braster uchel a llawer
o LDL. Dylai Flora ac olew llysiâu gael
euddefnyddio'n gymhedrol.Y brater gorau
i'w ddefnyddio yw'r hyn a geir mewn by-
dydd megis Olew Olewydd a 'rape Seed'.
Gil Flora 'pra active' a Benecolleihau
eich coleserol rhwng 10% a 15% wrth ei
ddefnyddio'n gyson. Mae ymarfer corff am
20 munud tair gwaith yr wythnos (cerdded
yn gyflym) yn cryfhau'r galon ac yn codi
lefel yr HDL yn eich gwaed. Mae gwin
coch mewn cymedroldeb yn amddiffynol
hefyd. Os oes rhywun yn y teulu wedi bod
ac angina neu wedi cael trawiad ar y galon
cyn bod yn 60 oed, buasai prawf coleserol
o fudd. Cofiwch mai'r ffordd orau i rwys-
tro clefyd y galon yw i beidio a dechrau
ysmygu, neu roi gorau i ysmygu.

A.W. Dolben
Mechanical and Body Repairs

 Parc Service Station
 Llidiart Y Parc
 Tel 01490 430380
 Mobile 07718909718

 **GROUSE INN** 
Proprietor: Sarah Kenrick
 The Grouse Inn, Carrog, Ceredigion LL21 5AT
 Tel: 01490 430272
 • Floor Garden overlooking River Dee
 • 2 minutes walk from the Train Station
 • Open All Day for Food and Drinks

Carrog Mill Cottages
 Y Felin, Carrog
5 Star Self Catering Accommodation
 Telephone 01490 430640
www.carrogmill.com

DEWIS DYDDYN
COTTAGE APARTMENT
4 Star Self Catering Apartment
Telephone 01490 430397
www.dewisdyddyn.dee valley.com

SNWCER

Curo Llandrillo B 4 - 2, ond colli i Llandrillo A 6 - 0

Gemau

Alun Jones i chwarae Rob Pierce Ysbytu Ifan

Alan Davies a John Reardon i chwarae Dewi Jones a Rob Pierce Ysbytu Ifan cyn Chwefror 27ain.

RYSAIT MIS MAWRTH

Mae ein gohebydd 'Cornish' (John Burn) yn gyndyn o ddatguddio rysait Pastai Cornish gan ddweud ei fod yn gyfrinach. Mae wedi fodd bynnag gyrru rysait sy'n cynnwys blodfresych, sy'n ardderchog gyda cig rhost:

Torrwch flodfresych a'i roi mewn dwr berwedig gyda halen am 3 munud. Rhowch y blodfresych (heb y dwr) ar ddysgl, gyda halen a phupur du. Taenellwch gyda caws ac olew olewydd. Craswch mewn popty poeth 185C am 10/15 munud. Oes gan unrhyw un rysait lleol i'w rhannu gyda'n darllenwyr? Buaswn yn falch o unrhyw gyfraniad!

CYMDEITHAS CARRQG

Nos Lun cyn y Nadolig aeth rhai aelodau o'r gymdeithas o gwmpas Llidiart-y-Parc a Charrog i ganu carolau. Casglwyd £120 tuag at gronfa Ambiwlans awyr yng nngogledd Cymru. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd. Nos Sadwrn Chwefror 28ain cynhaliwyd noson i dathlu Dydd Gwyl Dewi yn y neuadd. Paratowyd pryd blasus gan Edwin ac Eirian Ty Mawr a merched y gymdeithas. I ddilyn cafwyd adloniant gan y baswr o Langynhafal sef Meirion W Jones a'i ddwy ferch, un yn chwarae'r piano a'r Hall ar y fflwt, hefyd daeth Eirlys Dwyryd o Rhuthun i gyfeilio a rhoddwyd datganiad ar y delyn ganddi. Er gwaetha'r tywydd cafwyd noson gartrefol iawn ac roedd y cynifer a oedd yno wedi mwynhau yn arw iawn. Os am wybod mwy o fanylion am weithgareddau'r gymdeithas ffoniwch Brynle ar 01490 430215.

CLASSIFIEDS

For Sale. Tebo, Built In (green), Single electric Fan operated Oven/grill C/w Large viewing window and oven light. £50 01490 430558.

Wanted. A person to run the draw on Carnival day and anyone else prepared to help with the Carnival. Contact Nia on 430325

SWYDDFA'R POST, CARROG

Bydd Swyddfa'r Post, Carrog yn cau ar 31ain o Fawrth. Gobeithio y bydd gwasanaeth cyfyngedig ar gael. Bydd y Siop yn cau ar y 3ydd o Fis Ebrill. Dyma fydd y tro cyntaf i drigolion Carrog fod heb siop yn y pentref!